Cadwch Gymru'n Daclus
Spark / Sbarc
Maindy Road
Cardiff, CF24 4HQ

20 Ionawr 2026

Annwyl Ysgrifennyddion Gwladol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Llywodraeth y DU,

Rydym yn ysgrifennu fel clymblaid o sefydliadau amgylcheddol a dinesig i fynegi anogaeth gref i Lywodraeth y DU gymeradwyo'r eithrio arfaethedig yn unol â'r Ddeddf Marchnad Fewnol mewn perthynas â Chynllun Dychwelyd Ernes (CDE) Cymru.

Mae gan Gymru hanes hir a sefydledig o arloesi ym maes polisi amgylcheddol. Cafodd mesurau fel y tâl am fagiau plastig eu harloesi yng Nghymru, gan gyflwyno buddion amgylcheddol ac economaidd amlwg, a chawsant eu mabwysiadu yn fwy eang ledled y DU wedi hynny. Dyna fel y mae datganoli i fod i weithio: caniatáu i wledydd gwahanol ddatblygu'r dulliau gorau ar gyfer eu cyd-destun nhw, gyda pholisïau lleol yn lledaenu trwy esiampl.

Cynllun Dychwelyd Ernes yw'r union fath o ymyrraeth polisi y cafodd datganoli ei gynllunio i'w alluogi. Mae'n cyd-fynd yn glir â chymhwysedd datganoledig, mae wedi cael ei ddatblygu dros sawl blwyddyn trwy ymgysylltu â busnesau, awdurdodau lleol a chymdeithas sifil, a chafwyd deddfwriaeth ar ei gyfer yn ddidwyll gan y Senedd.

Yng Nghymru, mae deunyddiau targed CDE (poteli plastig, caniau a photeli gwydr) yn cael eu canfod yn dros hanner ein mannau cyhoeddus, gyda gwydr wedi torri yn bresennol mewn ryw 8% o leoliadau. Mae'r broblem yn ymestyn y tu hwnt i ardaloedd trefol. Mae data gan y Marine Conservation Society yn dangos bod 49% o draethau Cymreig a arolygwyd wedi cael eu halogi gan boteli gwydr (2024), gan amlygu maint y mater ar draws yr amgylcheddau mewnol a'r traethau.

Mae goblygiadau amlwg i hyn o ran diogelwch y cyhoedd, niwed amgylcheddol a chostau glanhau. Mae cefnogaeth y cyhoedd i gynllun sy'n cynnwys gwydr yn gryf hefyd, gyda thystiolaeth ymgynghoriad ledled y DU yn dangos bod 86% o ymatebwyr yn cefnogi cynnwys gwydr mewn Cynllun Dychwelyd Ernes.


Cadwch Gymru'n Daclus yn gwmni wedi ei gyfyngu trwy warant. Rhif Cwmni: 4011164 Rhif Elusen: 1082058 Rhif TAW: 850 3958 13
Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration : 850 3958 13
INVESTORS IN PEOPLE™ We invest in people Gold Rydym yn buddsoddi mewn pobl Aur
We are a Living Wage Employer
Registered with/Cofrestrwyd gyda'r FUNDRAISING REGULATOR RHEOLEIDDIWR CODI ARIAN
MINDFUL EMPLOYER
Cynnig Cymraeg

cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

Mae hefyd yn werth nodi bod cynnwys gwydr yn rhan greiddiol o'r Cynllun Dychwelyd Ernes a gynigiwyd yn wreiddiol ledled y DU. Penderfyniadau wedi hynny gan Lywodraeth y DU i leihau cwmpas y cynllun sydd wedi creu gwyriad, yn hytrach nag unrhyw symud i ffwrdd gan Gymru o ddull y cytunwyd arno neu a sefydlwyd. Mae cynigion Cymru felly'n adlewyrchu parhad o ran yr uchelgais gwreiddiol am CDE cynhwysfawr.

Mae cynlluniau dychwelyd ernes cynhwysfawr, yn cynnwys gwydr, yn arfer rhyngwladol ac yn economaidd hyfyw. Mae mwyafrif helaeth y cynlluniau sy'n gweithredu'n fyd-eang ar hyn o bryd yn cynnwys gwydr, ac mae profiad systemau wedi eu ffedereiddio fel Canada ac Awstralia yn dangos bod modd rheoli amrywiaeth rhwng taleithiau neu wledydd a'u bod yn effeithiol.

Byddai atal Cymru rhag gweithredu ei chynllun ar yr adeg hon yn arwain at ganlyniadau ymhell y tu hwnt i bolisi ailgylchu. Byddai'n codi cwestiynau difrifol ynghylch yr hyn y gall llywodraethau datganoledig sy'n atebol yn ddemocrataidd ei gynllunio, ymgynghori yn ei gylch a'i ddeddfwriaethu'n hyderus, hyd yn oed mewn meysydd lle mae'r cyfrifoldeb yn amlwg wedi ei ddatganoli.

Byddai sicrhau bod Cymru'n gallu bwrw ymlaen fel y cynlluniwyd yn cefnogi cynnydd amgylcheddol, yn rhoi sicrwydd rheoleiddio, ac yn dangos sut gall arloesi o ran polisi datganoledig roi buddion sy'n ymestyn ar draws y DU gyfan.

Rydym felly'n annog Llywodraeth y DU i weithio'n adeiladol gyda Llywodraeth Cymru i alluogi Cymru i fwrw ymlaen â'i Chynllun Dychwelyd Ernes arfaethedig, gan gynnwys gwydr a darpariaeth ar gyfer ailddefnyddio.

Wedi'i lofnodi ar ran y sefydliadau llofnodwyr.,

O G Derbyshire

**Owen Derbyshire,** Prif Weithredwr, Cadwch Gymru'n Daclus
**Sandy Luk**, Prif Weithredwr, Marine Conservation Society
**Giles Bristow**, Prif Weithredwr, Surfers Against Sewage
**Dom Ferris,** Prif Weithredwr, Trash Free Trails
**Gail Davies-Walsh**, Prif Weithredwr, Afonydd Cymru
**Karen Whitfield**, Cyfarwyddwr, Cyswllt Amgylchedd Cymru
**Kate Oprava**, Cadeirydd, Cardiff Rivers Groups

Sbarc, Ffordd Maindy, Caerdydd, CF24 4HQ | Spark, Maindy Road, Cardiff, CF24 4HQ
02920 025695 keepwalestidy.cymru info@keepwalestidy.cymru
Cadwch Gymru'n Daclus yn gwmni wedi ei gyfyngu trwy warant. Rhif Cwmni: 4011164 Rhif Elusen: 1082058 Rhif TAW: 850 3958 13
Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration : 850 3958 13

INVESTORS IN PEOPLE™ We invest in people Gold Rydym yn buddsoddi mewn pobl Aur
We are a Living Wage Employer
Registered with/Cofrestrwyd gyda'r FUNDRAISING REGULATOR RHEOLEIDDIWR CODI ARIAN
MINDFUL EMPLOYER
Cynnig Cymraeg